

Senario 1: Anghytuno ynghylch Prosiect Grŵp

Yn ystod trafodaeth ynghylch prosiect grŵp, mae Bryn a Aled yn ceisio penderfynu beth fydd thema eu cyflwyniad. Mae Aled yn dymuno ymdrin â materion amgylcheddol, ond mae'n well gan Dylan ddatblygiadau technolegol.

Yn ystod y drafodaeth, mae Bryn yn teimlo nad yw Aled yn gwrando ac mae'n gweiddi, "Mae dy holl syniadau di yn dwp, Aled. Rhaid i ti gael dy ffordd dy hun efo popeth!"

Senario 2: Anghytuno mewn Ystafell Ddosbarth

Yn ystod dadl yn yr ystafell ddosbarth am bolisiâu gwisgoedd ysgol, mae barn Carys ac Aeron am godau gwisg yn wahanol. Mae Carys yn credu bod angen codau gwisg er mwyn annog pobl i gadw at reolau'r ysgol, ond mae Aeron yn credu eu bod yn cyfyngu ar fynegiant personol.

Wrth i'r drafodaeth boethi, mae Aeron yn torri ar draws sawl gwaith pan mae Carys yn siarad, ac yn dweud maes o law, "Nid yw dy ddadl di yn gwneud synnwyr oherwydd fydd di byth yn ystyried pethau yn ofalus. Rwy'ti'n copïo'r pethau y bydd athrawon yn eu dweud."

Senario 3: Anghytuno ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae Bronwen yn cyhoeddi postiad yn mynegi barn am bwnc dadleuol. Mae Rhys yn anghytuno'n gryf ac mae'n ysgrifennu sylw, "Rwy'ti'n ofnadwy o anwybodus. Sut fedri di hyd yn oed feddwl fel yna? Os wyt ti'n mynd i ledaenu sothach o'r fath, paid â mynd ar-lein."